

RYDYM YN RECRIWTIO

Ymunwch a'r tim yn Hamdden Sir Ddinbych



CYMRAG





Teitl y Swydd: Cysylltiadau Cyhoeddus y Gymraeg, Swyddog Cyfathrebu a'r Cyfryngau

Cyfeirnod y swydd: DLLC

Lleoliad: Dinbych

Cyflog: Graddfa 8, £29,577 - £32,234

Oriau: 37 awr yr wythnos

Contract: Parhaol

Dyddiad Cau:

Sut i wneud cais:

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy'r wefan www.hamddensirddinbych.co.uk. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych ar 01824 706100.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn Gwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant sy'n eiddo i'r Cyngor, ac felly caiff ffurflenni cais eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais trwy'r wefan er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Llythyr gan y Rheolwr Gyfarwyddwr

Helo, fy enw i yw Jamie Groves, a fi yw Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Am fod gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n Cwmni, roeddem yn credu yr hoffech gael ychydig o wybodaeth amdanom ni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gan ein bod yn Gwmni newydd gyda thîm sefydledig, brwdfrydig ac ysgogol, sydd â diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef enw da o brofiadau gwych yn ein cyfleusterau i gyd a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r safon orau i gwsmeriaid yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac mae'r rhaglen dreigl hon o fuddsoddiad yn ein cyfleusterau wedi arwain at enw da am ddarparu cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a hamdden i'n preswylwyr ac ymwelwyr, sydd yn cael eu cymharu â'r rhai gorau yn y sector breifat. Mae ein saith Canolfan Hamdden yn cynnig cyfarpar campfa o'r radd flaenaf ac ystod eang o ddosbarthiadau ffitrwydd. Ar draws y sir, mae gennym chwe pwl nofio, yn ogystal â neuaddau chwaraeon a chaeau aml dywydd.

I'r rheiny sydd yn chwilio am ddiwrnod llawn hwyl, mae gennym barc dŵr SC2 gyda Tag Ninja yn y Rhyl, y Nova – ein lleoliad orau i ymwelwyr ym Mhrestatyn, a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig bwyd arbennig a choctêls ym Mwyty a Bar 1891 yn y Rhyl, neu bitsa a gwydraid oer o win gwyn yn yr haul yn y Cwt y Traeth ym Mhrestatyn. I'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau, efallai hoffech ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun, Canolfan ar gyfer y Celf Cymhwysol gyda tair oriel yn dangos celf gymhwysol cenedlaethol a rhyngwladol orau. Mae gan ein tîm Cymunedau Actif prysur gyfoeth o brofiadau yn eu sectorau eu hunain, a gyda'i gilydd maent yn cyfuno eu sgiliau i gynnig rhaglen amrywiol o ansawdd uchel, a chyfleodd hamdden cynhwysol. Mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid, felly os mai cynnal parti pen-blwydd neu helpu rhywun wella eu hiechyd a ffitrwydd ydyw, rydym bob amser yn barod i helpu.

Ein staff sy'n sail i'n llwyddiant, ac mae gennym dîm ac ethig gwych yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Rydym yn cynnig cyfleoedd eang i hyfforddi a datblygu gyrfa, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein staff yn hapus yn eu rôl. Os ydych yn angerddol dros ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, gyda'r awydd i helpu cydweithwyr a chwsmeriaid, yna byddwch yn gartrefol iawn gyda ni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.your application.



"Darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o safon uchel sy'n denu lefelau cyfranogi uchel, a gwella lles ein trigolion ac ymwelwyr"



Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg; sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwymo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon ragorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.



Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Cysylltiadau Cyhoeddus y Gymraeg, Swyddog Cyfathrebu a'r Cyfryngau
Graddfa: 8

Cwmni: Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Maes Gwasanaeth: Brand Marchnata a Cysylltiadau Cyhoeddus

Yn atebol i : Pennaeth Marchnata, Brand a Chysylltiadau Cyhoeddus

Rhif y Swydd / Dyddiad Cyhoeddi: 23 Mawrth 2021

Pwrrpas y Swydd:

Mae Hamdden Sir Ddinbych wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf yn mynd i'r afael â chyfleusterau gwael, caiff ei adnabod fel darparwr gwasanaeth pwysig gan Gyngor Sir Ddinbych a chyrrff cyhoeddus eraill; ac mae ganddo broffil uchel ar draws y sector Hamdden. Fel Swyddog y Gymraeg a Chysylltiadau Cyhoeddus, byddwch yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr y Cwmni i reoli a datblygu cynnwys marchnata a chyfathrebu yn Gymraeg ar gyfer y Cwmni. Byddwch yn creu ac yn datblygu cynnwys Cymraeg addas er mwyn i'r Cwmni gyflawni ei amcanion masnachol, a chydymffurfio â gofynion y Gymraeg.

Bydd y rôl hon yn cynghori ar yr holl gynnwys o ran y Gymraeg ar draws y Cwmni er mwyn cynnal brand ac enw da cadarn; ac i gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r refeniw ar gyfer pob cyfleuster ac atyniad o fewn y Cwmni.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn awyddus i benodi unigolyn hynod hyderus a llawn ysgogiad i gefnogi Pennaeth y Brand Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus er mwyn hyrwyddo a marchnata gweithgareddau a gwasanaethau'r cwmni drwy gyfrwng y Gymraeg, a gweithredu fel llysgennad dros y Gymraeg a'i diwylliant o fewn y Cwmni, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth a Safonau'r Gymraeg.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi ymrwymo'n llawn i'r Gymraeg ac am y rheswm hwnnw, rydym yn awyddus i ehangu ein tîm ar adeg gyffrous iawn i'r cwmni. Rydym yn chwilio am unigolyn proffesiynol sy'n llawn creadigrwydd a brwdfrydedd, gyda chefnidir cryf mewn cyfathrebu Cysylltiadau Cyhoeddus a'r cyfryngau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.



Pwrrpas y Swydd:

Bydd deiliad y swydd yn hyrwyddo'r cwmni drwy gyfrwng y Gymraeg mewn datganiadau rheolaidd i'r wasg ac ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm i ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus drylwyr, gan gynnwys digwyddiadau a chreu cynnwys ar draws pob platfform digidol a thraddodiadol.

Bydd deiliad y swydd yn monitro gweithgarwch hyrwyddo ar draws portffolio hamdden masnachol y cwmni, gan gynnwys sicrhau fod asedau ymgyrchu digidol a'r rhai wedi eu hargraffu, yn cael eu rhannu'n ddwyieithog yn unol â nodau ac amcanion pob safle. Bydd sylw cryf i'n hatyniadau ymwelwyr yn ystod y tymor gwyliau, gan gynnwys ymgysylltu a chwsmeriaid, marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol, cynnwys y wefan a diweddarau lluniau.

Prif Gyfrifoldebau ac Atebolrwydd

- Sicrhau dosbarthiad effeithiol y cynnwys digidol ar draws pob platfform, gan gynnwys y wefan, cyfryngau cymdeithasol, sgriniau digidol a marchnata drwy e-bost ar gyfer pob safle hamdden masnachol.
- Cydlynu archebu dosbarthu deunyddiau marchnata wedi eu hargraffu i leoliadau mewnol ac allanol.
- Sicrhau fod arddangosfeydd marchnata ar draws y portffolio wedi eu cyflwyno'n dda a'u targedu yn unol â'r briff marchnata ac yn cydymffurfio â'r Gymraeg.
- Golygu a diweddarau cynnwys gwefannau a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau fod pob cynnwys yn berthnasol, cywir a chyfredol, ac wedi ei gyfieithu.
- Monitro platfformau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg ar draws y cwmni, gan sicrhau fod negeseuon a sylwadau yn cael eu hateb yn gyflym.
- Cydlynu a chefnogi gweithgareddau allgymorth a gwerthiant rhagweithiol eraill er mwyn hybu twf mewn meysydd busnes allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys atyniadau masnachol, bwytaï a chanolfannau hamdden, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.
- Creu cynnwys Cymraeg ar gyfer platfformau digidol ar draws pob sianel, gan gynnwys Cymunedau Gweithredol a phob safle hamdden masnachol.



- Mesur a monitro perfformiad yr ymgyrch Gymraeg ac effeithiolrwydd marchnata, gan rannu canlyniadau ac argymhell ffyrdd o wella perfformiad yn y dyfodol.
- Ymdrin ag ymholiadau a chwynion cwsmeriaid fel bo'n briodol a rhoi gwybodaeth a chynghor cyffredinol ynglŷn â rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnal ymrwymiad y cwmni i gyfle cyfartal a hyrwyddo arferion anwahaniaethol ym mhob agwedd ar waith a wneir.
- Chwilio am ffyrdd dyfeisgar a chreadigol o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a chodi ei phroffil mewn modd sy'n meithrin agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg o fewn y Cwmni.
- Bydd deiliad y swydd yn cofnodi ac yn paratoi ymateb i gwynion cwsmeriaid o ran y Gymraeg; cynorthwyo gwasanaethau'r cwmni a chyfleusterau gyda phrawf ddarllen fersiynau Cymraeg o ddogfennau; a bydd yn rheoli'r holl gyfieithiadau ar draws platfformau cyfryngau cymdeithasol y cwmni.
- Cefnogi gwasanaethau gyda phrawf ddarllen fersiynau Cymraeg o ddogfennau.
- Byddwch yn darparu cynghor a chefnogaeth i fwrdd a thîm gweithredol y cwmni, ynglŷn â gweithredu a chydymffurfio'n barhaus â Safonau'r Gymraeg a chynnig canllawiau a datrysiadau o ddydd i ddydd.
- Monitro perfformiad y gofynion statudol perthnasol sydd ynghlwm â meysydd cyfrifoldeb a rhoi adborth rheolaidd i'r grŵp Gweithredol.
- Ni fwriedir i'r swydd-ddisgrifiad hwn fod yn rhagnodol nac yn gyflawn; fe'i cyflwynir fel fframwaith i amlinellu prif feysydd cyfrifoldeb ar adeg ei ysgrifennu.
 - Bod yn unigolyn proffesiynol sy'n greadigol ac yn gallu meddwl am syniadau i gynhyrchu'r holl gynnyrch digidol, hysbysebu, marchnata e-bost, canllawiau corfforaethol ac ymgyrchoedd marchnata digidol yn ogystal â'r cynnwys cymdeithasol.
 - Gallu gweithio ar eich liwt eich hun gyda sylw i fanylder, a gweithio'n gywir a threfnus iawn. Byddwch yn dangos ysgogiad, yn rhagweithiol yn ogystal â gallu rheoli amser a phrosiectau gyda'r gallu parod i weithio o dan bwysau ac i amserlen dyn.
 - Gweithio o fewn canllawiau'r brand a chynnal profiad cyson ar draws pob sianel gan gynnwys deunydd wedi ei argraffu, ar y we ac ar gyfryngau cymdeithasol. Creu, paratoi, profi a gwirio gwaith celf sy'n barod i'w argraffu.



Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

- Dealltwriaeth dda o farchnata digidol, cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus a brand.
- Profiad cryf o farchnata cyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o gydlynu mentrau marchnata i friff marchnata.
- Sgiliau ysgrifennu a golygu ardderchog.
- Bod yn ddyfeisgar ac yn greadigol gyda'r gallu i feddwl am syniadau gwreiddiol a newydd.
- Yn hyblyg ac yn gallu gweithio o dan bwysau ac i derfynau amser.
- Sgiliau a phrofiad i feithrin perthnasau gwaith cryf gyda staff, cyflenwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid.
- Gallu gweithio mewn amgylchedd prysur a deinamig.
- Fel gweithiwr proffesiynol creadigol bydd gennych ddull strategol a byddwch yn gallu darganfod syniadau i gynhyrchu cylchlythyrau hysbysebu digidol.
- Byddwch yn dangos dyfeisgarwch, yn rhagweithiol yn ogystal â rheoli'ch amser a'ch prosiectau eich hun gyda'r gallu parod i weithio o dan bwysau ac i amserlenni tyn.



Goruchwyllo / Rheoli Pobl:

Er nad yw deiliad y swydd yn rheoli unrhyw unigolyn yn uniongyrchol, bydd disgwyl i'r rôl gynghori a chyfarwyddo nifer o feysydd allweddol o'r busnes gan gynnwys y tîm gweithredol o ran datblygu a chymeradwyo cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu'r Gymraeg.

Amodau Gwaith Arbennig

- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fod â'r gallu i deithio ar draws Sir Ddinbych, a thelir lwfans am hyn, ond mae hyn yn cael ei adolygu.
- Er bod hon yn swydd 37 awr yr wythnos, mae angen agwedd hyblyg tuag at oriau gwaith craidd. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'r oriau y mae'r swydd yn ffynnu. Ar adegau prysur masnachu, gallai hyn gynnwys penwythnosau a gyda'r nosau. Mae natur y busnes yn gofyn i'r tîm cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu fod ar gael i ymateb i blatfformau cymdeithasol y tu allan i brif oriau gwaith.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau tasgau heb oruchwyliaeth, a rhaid iddynt brofi eu bod yn gallu gweithio ar eu liwt eu hunain.
- Mae'r gallu i flaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a bodloni terfynau amser yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.



Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi trawsnewid dros y degawd diwethaf ac mae bellach yn adnabyddus am ddarpariaeth o safon uchel ledled Sir Ddinbych; gan gynnig arlwy Hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a masnachol gynaliadwy; a gwneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein trigolion a darparu ffyniant economaidd. Mae hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i'n gweithlu llawn cymhelliant sy'n gweithio o fewn diwylliant gwych a gwerthoedd cryf.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn glynw at ein egwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom fel eu cyflogwr i wneud yr hyn sy'n iawn bob amser, a byddwn yn eu gwneud yn falch.
- Ni fyddwn yn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dri piler pwysig ac unigryw, sy'n sail ac yn ddylanwad ar y ffordd yr ydym yn gweithio a'r rheswm dros greu'r Cwmni. Caiff y Cwmni ei gydnabod am ei gyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, y ffordd mae'n cydweithio â'i bartneriaethau a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth, y ffordd y mae'r Cwmni yn gofalu ac yn datblygu ei weithlu– mae'r Cwmni yn credu'n gryf mewn athroniaeth 'un tîm – un cyfrif banc'.



Tair piler o Hamdden Sir Ddinbych Cyf:

Ein Cymuned

Yn ardal Sir Ddinbych yn ehangach mae ein timau yn gweithio gyda rhwydwaith o gymunedau llai sy'n cynnwys cwsmeriaid, clybiau chwaraeon, grwpiau lleol a phreswylwyr. Mae'r cymunedau hyn yn greiddiol i bopeth rydym yn ei wneud.

Ein Pobl

Credwn fod ein staff yn elfen hanfodol o lwyddiant Hamdden Sir Ddinbych. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiad y mae pob unigolyn yn eu dwyn i'w rôl ac er bod y cwmni'n cynnig ystod amrywiol o wasanaethau, mae gan bob un o'r timau yr un rhinweddau yn gyffredin - maent yn llawn angerdd a chymhelliant am eu gwaith, gyda diwylliant o berfformiad uchel ac enw da am wasanaeth cwsmer rhagorol.

Ein Busnes

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn gwmni newydd a adeiladwyd ar gefndir o berfformiad uchel ac ymarfer arloesol. Dros y blynnyddoedd diwethaf, fel gwasanaeth o fewn Cyngor Sir Ddinbych, rydym wedi sefydlu perthnasau parhaus sy'n fuddiol i bawb gyda nifer o sefydliadau partner. Rydym yn edrych ymlaen at lwyddiant parhaus y partneriaethau sefydledig hyn, wrth ddatblygu mentrau newydd a chyffrous hefyd. O fewn bob perthynas, rydym wedi ymrwymo i weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a chwarteisi.

'Deiliad y swydd yn allweddol i sicrhau bod erbyn 2030 bydd Denbighshire Leisure Ltd yn parhau i fod yn adnabyddus am gyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd yn denu lefelau cyfranogiad uchel ac yn gwella lles ei thrigolion a'i hymwelwyr.



Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirdd boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac oedolion ynghyd ag atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachumewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor. Mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r sefydliad allu gweithredu'n ddi-oed pan fydd yn dod ar draws achos o gam-fanteisio.



Manylion am yr Unigolyn

Mae'r manylion am yr Unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

Teitl y Swydd: Cysylltiadau Cyhoeddus y Gymraeg, Swyddog Cyfathrebu a'r Cyfryngau

Maes Gwasanaeth : Brand Marchnata a Cysylltiadau Cyhoeddus

Graddfa: 8

Cymwysterau, Gwybodaeth, Profiad, Sgiliau a Galluedd

- Gradd neu brofiad cyfatebol mewn cyfathrebu a marchnata.
- Gwybodaeth am farchnata digidol, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, marchnata drwy e-bost, cyhoeddiadau print a marchnata traddodiadol.
- Profiad o weithio yn y / gyda'r cyfryngau i greu cynnwys i'r wasg e.e. cyhoeddiadau newyddion a chynnwys y we.
- Gwybodaeth ymarferol am gadwyni cyflenwi marchnata, caffael print a GDPR.
- Profiad o gyflwyno mentrau marchnata drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bod yn ddyfeisgar ac yn greadigol gyda'r gallu i feddwl am syniadau gwreiddiol a newydd.
- Sgiliau a phrofiad i feithrin perthnasau gwaith cryf gyda staff, cyflenwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid.
- Yn hyblyg ac yn gallu gweithio o dan bwysau ac i derfynau amser.
- Gallu gweithio mewn amgylchedd prysur a deinamig.

- Empathi at y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.
- Profiad o weithio mewn rôl Cysylltiadau Cyhoeddus neu farchnata.
- Gallu cyfathrebu a gweithio yn y Gymraeg.
- Gwaith tîm a phartneriaeth: cydweithio i ddarparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid a staff.
- Profiad o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ystod eang o gyrff mewnol ac allanol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth: ymateb yn llwyddiannus i anghenion dynodedig cwsmeriaid.
- Gallu gweithredu egwyddorion gwerth am arian ac effeithlonrwydd, gyda'r gallu i yrru hyn ymlaen o fewn Gwasanaeth Hamdden Sir Ddinbych.
- Gallu defnyddio a chymhwyso sgiliau TGCh perthnasol yn unol â natur a gofynion y swydd.
- Gallu dylanwadu ar eraill i ddarparu'r lefelau uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid. Sgiliau cyfathrebu / cyflwyno rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Sgiliau rhyngbersonol lefel uchel.
- Arddangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmer. Ymwybyddiaeth gref o'ch atebolrwydd eich hun ac eraill.
- Dangos gwytnwch ac ymwrthedd o dan bwysau.
- Addasu arddull bersonol i gwrdd â gofynion sefyllfaoedd cymhleth.
- Gwybodaeth ymarferol o roliadau o ran marchnata, diogelu data, caffael print a'r Gymraeg.



Diolch am eich diddordeb.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'n Angie Platt ar 01824 712613 /
angie.platt@hamddensirddinbych.co.uk.hank you for your interest.**



www.hamddensirddinbych.co.uk



Hamdden Sir Ddinbych



@Hsirddinbych